

## **Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: astudiaeth achos, Josef Herman**

### **Nodiadau Athrawon**

Yn y wers hon, mae myfyrwyr yn archwilio'r artist Josef Herman, ffoadur Iddewig a fu'n byw yn Ystradgynlais yng nghwm Tawe am un mlynedd ar ddeg, o 1944-1954. Gwahoddir myfyrwyr i archwilio gwaith celf Herman a chreu darnau eu hunain yn ei arddull ef. Gellir defnyddio'r wers hon fel gwers ar ei phen ei hun neu ei hymgorffori mewn cynllun gwaith astudio artist TGAU Celf.

Ceir rhagor o ffynonellau gwybodaeth am Josef Herman yma: <http://josefhermanfoundation.org>

### **Cysylltiadau cwricwlwm**

#### **Cyfnod Allweddol 4**

Celf a dylunio, Hanes

## Cynllun Gwers

### AMCANION DYSGU

- Datblygu dealltwriaeth o arddull artistig Josef Herman a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i'w brofiadau.
- Archwilio sut y gall ymdeimlad o le a chymuned ddylanwadu ar weithiau artistig.
- Gallu archwilio ysgogiad gyda chreadigedd ac arbroti gyda thechnegau newydd.

### OFFER SYDD EU HANGEN

- Copïau o daflen waith y myfyrwyr (1 i bob myfyriwr).
- Trawsgrifiad o fideo TATE: Josef Herman, Sketches of Wales | Animating the Archives (gweler y ddolen ar gyfer y fideo isod).<sup>1</sup>
- Delweddau wedi'u hargraffu / taflunio mewn **lliw**:
  - a) [Miners Singing gan Josef Herman](#).<sup>2</sup>
  - b) [Two miners gan Josef Herman](#).<sup>3</sup>
- Deunyddiau celf (ee papur, paent, pensiliau ac ati).

### DECHRAU ARNI

I gyflwyno gwaith Josef Herman, gwylwch y fideo TATE: [Josef Herman, Sketches of Wales | Animating the Archives](#).

Ydy'r myfyrwyr wedi clywed am Herman o'r blaen? Gofynnwch am eu hymatebion cychwynol i'w waith.

### DATBLYGU

Darllenwch drwy daflen y myfyrwyr a rhannwch y delweddau o weithiau Josef Herman.

Mewn grwpiau bach, trafodwch y cwestiynau canlynol:

- a) Sut fydddech chi'n disgrifio **arddull** Josef Herman ?
- b) Pwy yw **testunau** gwaith Herman a sut maen nhw'n cael eu portreadu?

Rhowch adborth i'r dosbarth cyfan a gofynnwch i'r myfyrwyr nodi eu hatebion ar y daflen. Anogwch nhw i ddefnyddio'r **geiriau allweddol**: cyfansoddiad, cyfrwng, lliw, siâp, ffurf, gwriad a thôn yn eu disgrifiadau.

---

<sup>1</sup>Fe wnaethom ychwanegu trawsgrifiad y clip fideo, y gallwch ddewis ei rannu gyda'ch myfyrwyr os ydych chi'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiad yn Gymraeg a Saesneg tra bod y clip yn Saesneg yn unig.

<sup>2</sup>Josef Herman, *Miners Singing*, olew ar fwrdd, grwnd plastr, Amgueddfa Cymru < <https://amgueddfa.cymru/casgliadau/online/object/f10742b6-625a-3491-91d1-67d7d8537523/Miners-singing/> > [ cyrchwyd 17 Chwefror 2022].

<sup>3</sup>Josef Herman, *Two Miners*, lithograff ar fwrdd, Amgueddfa Cymru < <https://museum.wales/collections/online/object/14658b5b-9d50-3b4f-8005-cf038c18fbfd/Two-Miners/?index=10> > [cyrchwyd 17 Chwefror 2022 ].

## PRIF

Gofynnwch i'r grŵp nodi unigolyn neu grŵp o bobl o'u cymuned eu hunain y gallent eu peintio neu dynnu llun ohonynt yn arddull Herman e.e. perchennog siop, chwaraewr rygbi, ffermwr, tîm pêl-droed, aelod o'r Tîm Achub Mynydd, nyrs...

Gofynnwch i'r grŵp ystyried beth am yr unigolyn neu'r grŵp hwnnw yr hoffent ei gyfleu'n arbennig, e.e. eu cyfeillgarwch, eu hagwedd weithgar, eu hangerdd, eu sgil, ac ati, a phenderfynu sut y gallent ddewis lliwiau, siapiau, gwedd, tonau, ac ati er mwyn cyflawni hyn.

Yna gallant ddechrau braslunio rhai syniadau, efallai defnyddio ffotograffau fel manau cychwyn a chyfeirio'n ôl at enghreifftiau Josef Herman er gwybodaeth. Gellid datblygu'r darnau hyn dros nifer o wersi os bydd amser yn caniatáu.

## Y DOSBARTH CYFAN

Gofynnwch i'r grŵp fyfyrio ar y darnau maen nhw wedi'u creu a'u hymatebion i gelf Josef Herman trwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- Pam ydych chi'n meddwl bod y glowyr yn Ystradgynlais mor bwysig i Josef Herman? (Anogwch nhw i feddwl am y gymuned y daeth ohoni yng Ngwlad Pwyl a'i brofiad fel ffoadur Iddewig)
- Sut gall celf helpu i ddatblygu ymdeimlad o gymuned?
- Pam fod mynegiant artistig (rhywbeth nad oedd yn cael ei ganiatáu fel arfer o dan y drefn Natsiaidd) mor bwysig?

## Trawsgrifiad

**Fideo:** [Josef Herman, Sketches of Wales | Animating the Archives](#)

Ceri Thomas – Ymddiriedolwr, Sefydliad Celf Josef Herman Cymru.

David Herman - mab.

Carole Hopkin - ffrind i'r teulu.

Betty Rae Watkins – Ymddiriedolwr, Sefydliad Celf Josef Herman Cymru.

**Ceri Thomas:** Ganed Josef Herman ym 1911 yn Warsaw, Gwlad Pwyl, i deulu Iddewig.

**David Herman:** Gadawodd fy nhad Wlad Pwyl yn y 1930au hwyr, 1938. Ffarweliodd ei fam ag ef yn yr orsaf reilffordd a dywedodd, 'Paid byth â dod yn ôl', sy'n golygu ei fod yn rhy beryglus eisoes yng Ngwlad Pwyl bryd hynny. Aeth trwy Wlad Belg a Ffrainc. Llwyddodd i ddod i Brydain yn 1940 yn ystod yr Ail Ryfel Byd, felly mae'n cael ei ystyried yn bennaf fel artist-ffoadur Iddewig.

**Ceri Thomas:** Yn anffodus, yn 1942 mae'n cael y llythyr tyngedfennol hwnnw gan y Groes Goch yn dweud bod ei deulu i gyd wedi'u difa yn y gwerylloedd crynhoi, felly daw'n artist sydd wedi goroesi.

**David Herman:** Ym 1944, yn haf 1944, daeth fy nhad i Gymru am y tro cyntaf. Cafodd effaith aruthrol arno. Bu'n foment y bu'n ysgrifennu amdani droeon ac yn ei atgofion *Related Twilights* ysgrifennodd am yr ymweliad hwn â'r pentref glofaol, Ystradgynlais, yn Ne Cymru.

'O dan y bont, allan o gysgod oer, diferau pwll o ddŵr a oedd yn mynd yn deneuach ac yn deneuach wrth iddo redeg ynghanol y cerrig sychion a'r cerrig mân disglair. Yna'n annisgwyl, fel pe bai o unman, camodd grŵp o lowyr ar y bont. Am hanner eiliad, ymddangosodd eu pennau yn erbyn corff llawn yr haul. Nid oedd y ddelwedd gyfan yn annhebyg i eicon yn darlunio'r seintiau gyda'u heurgylchau. Fe wnaeth y ddelwedd hon o'r glowyr ar y bont yn erbyn yr awyr ddisglair honno fy syfrdanu am flynyddoedd gyda'i chymysgedd o dristwch a mawredd, a daeth yn ffynhonnell fy ngwaith.'

Rydych chi'n cael delwedd yr eicon Bysantaidd, rydych chi'n cael y cymysgedd o'r mawredd a'r tristwch, sydd wir yn ganolog i'w gelfyddyd am weddill ei oes, o'r eiliad honno ymlaen. Yr ymdeimlad hwn o fawredd y gweithiwr fel mewn traddodiad gwleidyddol sosialaidd cyfan yn mynd yn ôl 100 mlynedd, ond tristwch y bywyd hwn o waith caled, di-baid hefyd.

**Ceri Thomas:** Roedd motiff y tad fel crydd, gŵr a ddefnyddiai ei ddwylo yn y ffordd urddasol hon i wneud pethau, yn amlwg yn argraff fawr ar y Josef ifanc ac mewn gwirionedd dyna oedd ei leitmotif

am weddill ei oes a dweud y gwir, sef urddas gwaith llaw, yn enwedig y dynion ond nid nhw'n unig, ond unwaith y daw i Gymru, y mae hynny'n amlygu ei hun bron yn hudolus iddo fel glöwr De Cymru.

Rwy'n meddwl mai effaith Ystradgynlais ar Josef Herman, mae'n debyg, oedd yr un fwyaf yn ei holl yrfa a bu fyw i bron 90 oed.

**David Herman:** Roedd wedi cael ei fagu mewn cymuned glos iawn, cymuned ddsbarth-gweithiol a thlawd iawn yng Ngwlad Pwyl.

**Carole Hopkin:** Ac roedd tlodi gwirioneddol yn Ystradgynlais bryd hynny. Wyddoch chi, yn ystod y '30au, '40au, yr holl ffordd i fyny drwy'r '50au, roedd yna lawer o dlodi enbyd, ac mae fy mam yn ei gofio; plant yn dod i'r ysgol heb gael brechwast ac, yn dod mewn dillad haf pan nad oedd ganddyn nhw ddillad gaeaf, ac roedd llawer o amddifadedd, ond roedd pobl yn ... roedd yn gymuned.

**Betty Rae Watkins:** Roedd y bobl yn wleidyddol ymwybodol iawn, llawer o lowyr a oedd yn gomiwnyddion ac yn sosialwyr ac yn aelodau o'r Blaidd Lafur, felly roedd gogwydd gwleidyddol cryf iawn yn yr ardal ac roedd yntau, yn rhannu hynny â phobl y, y pentref.

**Ceri Thomas:** Mae'r stori'n dweud bod ganddo lysenw ymhen wythnos neu ddwy. Roedd yn cael ei adnabod fel 'Joe Bach' sydd yn Gymraeg yn hyfryd oherwydd nid yw 'Bach' yn golygu 'Josef Bach' yn unig oherwydd ei fod, wyddoch chi, yn gorfforol fyr, ond mae hefyd yn golygu 'Annwyl'.

**David Herman:** Teimlai'n gartrefol ar unwaith ac i ffoadur, mae teimlo'n gartrefol, mae dod o hyd i gartref newydd yn beth mawr yn eu bywyd.

**Betty Rae Watkins:** Roedd eisiau amsugno popeth yn y pentref o fore gwyn tan nos.

**David Herman:** Byddai e'n codi am bedwar y bore, bob bore, yn sgetsio, wedyn yn peintio, a'r glowyr ar eu ffordd i'r pyllau glo, bydden nhw'n cerdded heibio ei stiwdio, bydden nhw'n gweld y golau ymlaen ac roedden nhw'n gwybod ei fod yn arlunydd a oedd yn gweithio'n galed ac roedd ganddo berthynas aruthrol gyda'r dynion hyn, a oedd yn emosiynol a theimladwy iawn iddo.

**Ceri Thomas:** Wyddoch chi, roedd affinedd pan ddaeth i Ystradgynlais: Tref gwaith llaw oeddent yn eu hanfod, pentref, wedi'i seilio i bob pwrpas ar lo, ond eto roedd ganddynt ddiddordeb dirfawr mewn diwylliant.

**Betty Rae Watkins:** Roedd gan lawer o bobl ddiddordeb ynddo oherwydd y gallai ddod â rhywbeth iddynt oherwydd eu bod yn bobl greadigol ac roedd ganddynt yr ysfa hon i greu, felly fe wnaethon nhw feithrin perthynas drwy ddiddordeb, diddordeb mewn diwylliant a daeth â dimensiwn Ewropeaidd iddynt.

**Ceri Thomas:** Un o'r math o adeiladau allweddol yn Ystradgynlais yw'r adeilad yr wyf yn eistedd ynddo nawr sef Neuadd Les y Glowyr, a dim ond deng mlwydd oed ydoedd bryd hynny. Fe'i hadeiladwyd yn 1934. Erbyn hyn, ar draws De Cymru roedd Neuaddau Lles Glowyr ac roedd y rhain yn cael eu hadeiladu o'r ceiniogau a roddwyd o gyflog y glowyr bob wythnos ac roeddent yn eu hanfod yn ganolfannau cymunedol diwylliannol, hunan-wella, felly'n ganolbwynt i Ystradgynlais, roedd gennych y lle anhygoel hwn a fyddai'n trafod gwleidyddiaeth gyfredol, athroniaeth, roedd y glowyr yn darllen drostyn nhw eu hunain. Byddai ganddyn nhw lyfrgell, roedden nhw'n eithriadol. Roedd yna rinwedd dyheadol yma, ac roedd Josef yn ei feddu hefyd.

**Carole Hopkin:** Pan fyddem ni'n siarad am Ystradgynlais, fel yr oedd yn ei ynganu, yn y stiwdio, byddai, byddai ei lygaid bob amser yn llenwi â dagrau ac roedd, roedd yma o hyd, a dweud y gwir. Cariodd Ystradgynlais gydag ef, er iddo ymadael.

**David Herman:** I artist yr oedd ei waith yn fywyd iddo, roedd dod o hyd i destun newydd a dod o hyd i set newydd o liwiau a thechnegau oedd wir yn gweithio iddo fel artist, dod o hyd i lais newydd fel artist, roedd gwneud hynny, roedd yr amser a'r lleoliad lle rydych chi'n cyflawni hynny bob amser yn mynd i fod yn hynod bwysig ac fe barhaodd yn bwysig iddo ar hyd ei oes.